

# Plannu coed

## Cynllun Dysgu Awyr Agored

<b>Arweinydd y Sesiwn:</b>	<b>Nifer y plant:</b> 0-30	<b>Ystod oedran:</b> Pob oedran
<b>Lleoliad:</b> Tiroedd Ysgol, Gardd Gymunedol	<b>Adnoddau:</b> Coed ifanc y gaeaf <a href="https://www.woodlandtrust.org.uk/plant-trees/free-trees/">https://www.woodlandtrust.org.uk/plant-trees/free-trees/</a> Welsh link gardiau a pholion coed rhawiau bwcedi Dŵr  <a href="https://www.woodlandtrust.org.uk/plant-trees/advice/how/">https://www.woodlandtrust.org.uk/plant-trees/advice/how/</a> Welsh link  <b>Dewisol:</b> pecyn iechyd pridd OPAL sydd yn cynnwys palu a chyfrif llyngyr a gwneud arbrofion gwyddonol ar y pridd. Llauer o hwyl fel estyniad i grŵp hŷn. <a href="https://mbaletrees.org/">https://mbaletrees.org/</a> i gael gwybodaeth am brosiect plannu coed Maint Cymru yn Uganda. <a href="https://www.woodlandtrust.org.uk/plant-trees/advice/how-seed/">https://www.woodlandtrust.org.uk/plant-trees/advice/how-seed/</a> Welsh link? canllaw cyflym ar sut i dyfu coeden o hedyn!	<b>Meini Prawf Llwyddiant:</b> Bydd pawb yn cymryd rhan mewn plannu coed. Bydd pawb yn rhoi cynnig ar ddefnyddio teclyn – rhaw. Bydd pawb yn dysgu am weithgareddau plannu coed Maint Cymru ac am y cynllun Plant! <i>(Rhowch hyperddolen i'r dudalen isod neu i'r daflen Plant?) – needed?</i>  <b>Geiriau pwysig:</b> Tyfu, Gwreiddiau, ynghwsg Ffotosynthesis Ocsigen, CO <sub>2</sub>  Plant! ydy cynllun a

<b>Pwnc:</b> Plannu coed		<p><b>Amcan Dysgu (Sail Resymegol):</b> Dysgwch sut i blannu coeden a pham ein bod ni angen coed.</p> <p><b>Nod y sesiwn a sut mae'n cysylltu â dysgu am Newid yn yr Hinsawdd:</b> Mae coed a phlanhigion yn bwysig iawn mewn sawl ffordd, sy'n cynnwys cymryd carbon deuocsid allan o'r atmosffer, sef ein hamddiffyniad gorau yn erbyn lefelau rhy uchel o CO<sub>2</sub>.</p>	<p>sefydlwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol yn 2008. Mae coeden yn cael ei phlannu ar gyfer pob plentyn sy'n cael ei eni neu ei fabwysiadu yng Nghymru, sy'n creu coetiroedd newydd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ar draws Cymru. Ers 2014, mae cynllun Plant! Maint Cymru wedi ymrwymo i blannu coeden ychwanegol yn Uganda ar gyfer pob coeden sydd yn cael ei phlannu yma yng Nghymru. "</p>
<b>Amser:</b> 90 mun			
<b>5 mun</b>	<b>Cylch</b>	<b>Briff ffiniau a diogelwch</b>	Pwyntiwch at yr ardal rydym yn chwarae ynddi a'r ardal y byddwn yn plannu ynddi. Unrhyw ffiniau sydd eu hangen a ble bydd yr offer.
<b>10 mun</b>		<b>Gêm boethi</b>	<b>Gwreiddiog</b> – mae un person yn actio fel 'y peth' – ok? ac mae pawb arall wedi'u gwasgaru ar draws y gofod ac wedi rhewi (yn sownd yn y mwd), Mae 'y peth' yn rhedeg drwy'r bobl yn tagio cymaint ag y gall. Pan fyddwch wedi cael eich tagio, byddwch yn dadrewi, ac yn gallu mynd ar ôl 'y peth'. Pan fyddwch chi'n dal 'y peth' –rydych

			<p>chi'n ceisio stopio 'y peth' drwy actio fel 'gwreiddyn' neu angor. Daliwch fraich 'y peth' (byddwch yn dyner, "bydd rhaid i'r 'peth' gydweithredu) a rhoi'r gorau i redeg. Mae hon yn gêm gyflym iawn lle mae 'y peth' yn cael ei 'wreiddio' yn gyflym iawn i'r fan a'r lle. Ar ôl i 'y peth' gael ei stopio, rhowch 5 eiliad i bawb redeg a rhewi eto, yna galwch enw 'y peth' newydd.</p> <p>NEU</p> <p><b>Gêm anifeiliaid sy'n byw yn y goedwig law</b> –mae pawb yn meddwl am anifail i fod fel, ac yn trio symud drwy'r gofod fel yr anifail hwnnw. Gallech chi ddangos sut i wneud hyn yn gyntaf. Ar gyfer grŵp hŷn, gallech ychwanegu cyfarwyddiadau fel ' mae storm drom yn dod ' ac mae'n rhaid i bob un ohonynt gysgodi dan goeden.</p>
<b>10 mun</b>	<b>Cylch</b>	<b>Trafodwch yr Amcan Dysgu a rhannwch wybodaeth</b>	<p><b>Eglurwch y cynllun</b> – faint o goed rydym yn bwriadu eu plannu ac yn lle.</p> <p>Os yw'r grŵp wedi cael gwasanaeth bach Maint Cymru, ceisiwch gofio nifer y coed a blannwyd gan brosiect cefnogi Maint Cymru yn Uganda. Rhowch wybod i bawb am y Cynllun Plant! a sut y gall plant yng Nghymru deimlo cysylltiad ag Uganda oherwydd y cynllun.</p> <p>Esboniwch y bydd pawb yn cael tro gyda'r offer, ac y bydd pawb yn cael cyfle i wneud rhywbeth. Byddwn yn</p>

			gweithio gyda'n gilydd.
<b>10 mun</b>	<b>Cylch NEU - cwestiynu gwahanol i 4 grŵp</b>	<b>Gweithgaredd i ddatblygu/cyfnert hu gwybodaeth, e.e. dod o hyd i eitemau cudd, casglu neu sylwi ar rywbeth yn yr ardal</b>	<p><b>Gweithgaredd sylwi ar pryfed</b> Beth ydy ein rhesymau dros blannu coed? (Yma yn benodol, ac yn gyffredinol) Sut mae coed yn ein helpu? Gallwch drafod ffotosynthesis, ocsigen, carbon deuocsid (CO<sub>2</sub>), bwyd, ffrwythau (os yw'n goeden ffrwythau) - yna mynd ymlaen i drafod pryfed, llygredd, peillio a phwysigrwydd bywyd pryfed. Pa fwystfil bach sy'n helpu i greu'r amodau tyfu perffaith ar gyfer coeden? Ac ar gyfer popeth sy'n tyfu mewn pridd? Llyngyr. (Os oes amser - rhowch gynnig ar ddod o hyd i lyngyr ac ar edrych arnynt - mae pecyn OPAL gwych sy'n mynd i fanylion am hyn (CA2+ gyda chefnogaeth)). Gallai grŵp hŷn drafod y ffaith y bydd gan goedwigoedd glaw trofannol lawer o wahanol fwystfilod bach a phridd o'i gymharu â Chymru hefyd.</p>
<b>5 mun</b>	<b>Cylch</b>	<b>Rhannwch y darganfyddiadau yn gryno Cyflwynwch weithgaredd creadigol</b>	Gosodwch set o'r offer y bydd ei angen arnom yn y cylch, a siaradwch am sut y bydd y plannu'n gweithio.
<b>25 mun</b>	<b>Grwpiau</b>	<b>Gweithgaredd creadigol</b>	<b>Dangoswch sut i blannu'r goeden gyntaf</b> gyda grŵp o fyfyrwyr. Darllenwch ganllaw Coed Cadw i weld canllaw cam wrth gam syml ar sut i

			<p>blannu (dolen yn y bocs adnoddau). Rhannwch yn grwpiau, ac ewch drwy bob cam o blannu coeden gam wrth gam...</p> <p>1: codi tywarchen sgwâr</p> <p>2: palu'r twll</p> <p>3: ychwanegu ychydig o faetholion i'r twll (gallech dorri darnau o'r dywarchen fel yr awgrymir yn y canllaw)</p> <p>4: rhoi'r goeden yn y twll, a gwneud yn siŵr y bydd y gwreiddiau'n cael eu gorchuddio ac y bydd gwaelod y boncyff yn lefel gyda'r tir, unwaith y bydd wedi'i lenwi. Ychwanegu'r polyn os nad yw wedi'i atodi'n barod.</p> <p>5: dylai un neu ddau o bobl ddal y goeden yn ei lle tra bod eraill yn llenwi'r twll</p> <p>6: stampio'r pridd i lawr o amgylch y goeden, gyda'ch troed fel arfer.</p> <p>7: ychwanegu gard os ydych yn ei ddefnyddio - bydd hyn yn amddiffyn rhag strimio gormodol</p> <p>8: taenu rhisgl neu ddeunydd eraill o amgylch y goeden, yn hytrach na gosod tyweirch newydd.</p>
<b>15 mun</b>	<b>Cylch</b>	<b>Adborth o weithgaredd</b>	Efallai yr hoffech drefnu <b>seremoni</b> i nodi'r digwyddiad plannu. Efallai bod

		<b>Creadigol - cyflwyniad gan blant + Adolygu a Myfyrio</b>	plant wedi paratoi cerdd i'w darllen neu bod y pennaeth eisiau dweud ychydig o eiriau os yw'r coed wedi'u cysegru i rywun arbennig neu wedi cael eu rhoddi gan rhywun arbennig. Gallech ddal dwylo mewn cylch o amgylch un o'r coed, ac addo edrych ar ôl y goeden wrth iddi edrych ar ein hôl ni.
<b>10 mun</b>	<b>Fel 1 grŵp</b>	<b>Gêm - i weddu'r hwyliau / grŵp</b>	<b>Gwenyn suo</b> (Gêm lle mae'r plant yn hedfan o gwmpas fel gwenyn, gyda'r athrawes yn ailadrodd 'gwenyn suo', 'gwenyn suo', 'gwenyn suo'- nes iddi ddweud 'rhewi' ac yna, rhoi llythyren neu gategori i blant sydd ddim mor hyderus gyda'u sillafu e.e. 'rhewi... C ' neu 'rhewi... anifeiliaid coedwig law.' Mae'n rhaid i'r plant droi yn rhywbeth sy'n dechrau gyda 'C', a rhewi. Mae'r athrawes yn trio dyfalu beth ydy pob un ohonyn nhw'n gyflym, yna'n dechrau gyda 'Gwenyn Suo' eto. Categoriâu posibl - anifeiliaid fferm, anifeiliaid anwes, pryfed, rhywbeth sy'n gallu nofio, rhywbeth sy'n gallu hedfan, ffordd o deithio/trafnidiaeth, llysieuyn gwyrdd, ffrwyth, cymeriad o stori, rhywun yn gweithio yn yr awyr agored ac ati) NEU <b>canwch gân</b> NEU <b>tacluso</b> a chario bob dim yn ôl.